RHIFYN 27 / GWANWYN 2010
www.wrexham.gov.uk

Cyswllt

cylchgrawn cyngor bwrdeistref sirol wrecsam

LLYFRGELL AR EI NEWYDD WEDD AR AGOR!

Cael gwybod am y gwasanaethau newydd a gwell

YSGOL HEULFAN YN 'EITHRIADOL DROS BEN'

Darllenwch am adroddiad diweddaraf Estyn

Hefyd: •Gwrtaith am ddim •Llifogydd: byddwch yn barod •Wythnos Clytiau Go Iawn

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

CROESO.....

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau rhifyn y gwanwyn o Cyswllt. Cofiwch ddweud eich barn wrthym trwy gysylltu â ni:

Ffôn: 01978 292014
E-bost: connect@wrexham.gov.uk

Cyswllt, Uned Gyfathrebu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Stryt y Lampint, Wrecsam LL11 1AR.

Caiff Cyswllt ei gynhyrchu bedair gwaith y flwyddyn. Bydd y rhifyn nesaf yn cael ei gyhoeddi yn yr haf.

Argraffwyd Cyswllt 100% ar bapur a ailgylchwyd. Cofiwch ailgylchu'r cylchgrawn hwn pan fyddwch wedi gorffen ei ddarllen.

Ydych chi'n ei chael yn anodd darllen print llai?
Os hoffech gael copi o Cyswllt ar ffurf fwy, cofiwch ffonio 01978 292014.



NEGES ODDI WRTH ALED ROBERTS

Arweinydd y Cyngor

Ar adeg ysgrifennu hwn ni chawsom ddyddiad yr Etholiad Cyffredinol eto. Byddaf yn falch pan fyddwn yn gwybod y canlyniad fel bod gennym fwy o wybodaeth am faint y toriadau sy'n wynebu llywodraeth leol yng Nghymru.

Un wers a ddysgwyd gennym o'r gaeaf diwethaf oedd nad oedd ein stoc halen hanesyddol o 2500 tunnell yn ddigon ac fe'i cynyddwyd i 4500 tunnell. Roeddem yn fyr iawn ar un cyfnod ac, er nad aeth y cyfan, eto bu raid i ni gyfyngu ar ei ddefnydd oherwydd cyfarwyddiadau'r Llywodraeth. O ganlyniad bydd stociau halen y fwrdeistref sirol yn cael eu cynyddu i 6,000 tunnell y gaeaf nesaf.

Un o ganlyniadau anochel rhaglenni graeanu yn y gaeaf yw tyllau yn y ffyrdd ac, felly, mae mwy o arian yn cael ei roi o'r neilltu i ddelio â'r broblem hon. Bydd ein rhaglen adeiladu ffyrdd yn cael ei chynyddu hefyd i sicrhau nad oes dim dirywiad pellach yn eu cyflwr.

Nawr bod y gyllideb wedi cael ei chytuno am y flwyddyn nesaf rwy'n falch o ddweud bod cynnydd Treth y Cyngor yn Wrecsam yn un o'r isaf yng Nghymru sef 2.94%. Byddwn yn dal i orfod cyllidebu'n ofalus ond ni fydd cyllid ysgolion yn cael ei dorri am y bumed flwyddyn yn olynol. Mae mwy o arian yn mynd at ofal henoed a gwasanaethau cymdeithasol plant lle'r ydym wedi gweld cynnydd syfrdanol mewn cyfeirebau amddiffyn plant.

Yn ogystal rydym yn buddsoddi bron £30 miliwn yn ein hysgolion. Rydym hefyd yn torri tir newydd gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth drafod defnyddio tir y Cyngor i adeiladu cartrefi fforddiadwy ar gyfer pobl leol, fyddai'r prosiect cyntaf o'i fath yng Nghymru.

Os oes gennych unrhyw farn ar wasanaethau'r Cyngor yna cysylltwch â mi.

Y Cynghorydd Aled R Roberts

Ymwadiad: Ni all Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am y cynhyrchion neu wasanaethau sy'n cael eu darparu gan unrhyw gwmnïau eraill sy'n ymddangos yn y cylchgrawn hwn.

Yr Eisteddfod yn rhoi hwb i fusnesau lleol?

Gallai busnesau lleol elwa ar un o achlysuron diwylliannol mwyaf Cymru pan ddaw i Wrecsam y flwyddyn nesaf.

Bydd y dref yn croesawu'r Eisteddfod Genedlaethol yn 2011 a bydd trefnyddion yn dechrau dyfarnu contractau'n fuan am bob math o wasanaethau, medrusrwydd a chynhyrchion fydd eu hangen i drefnu a rhedeg yr wŷl.

Bydd cwmnïau lleol yn cael eu hannog i gystadlu am y gwaith ac, i helpu dechrau pethau, mae tîm menter busnes Cyngor Wrecsam yn trefnu gweithdy 'cyfarfod y prynwr', fydd yn cael ei gyllido trwy Wasanaeth Datblygu Cyflenwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Er nad oes dim sicrwydd faint fydd yn cael ei ddyfarnu i gwmnïau lleol, mae trefnyddion yr achlysur yn ceisio sicrhau y gall busnesau Wrecsam gystadlu am waith ar yr un telerau â phawb arall.

Meddai'r Cynghorydd Bob Dutton, dirprwy arweinydd y Cyngor: 'Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn ddigwyddiad anferth sy'n gofyn am lawer iawn o gynllunio, a bydd y trefnyddion yn dechrau dyfarnu contractau yn ddiweddarach eleni.

'Annog cwmnïau lleol i gystadlu am y gwaith yw un ffordd y gallwn helpu Wrecsam gael y mwyaf o'r achlysur pwysig hwn.'

I gael gwybod mwy am y digwyddiad 'cyfarfod y prynwr' neu'r mathau o gontractau sy'n debygol o gael eu dyfarnu, cysylltwch â Morag Moreton neu Lynne Lewis yn nhîm Menter Busnes Cyngor Wrecsam ar 01978 366366.

GALW BUSNESAU LLEOL!

Ymhob rhifyn o Cyswllt rydym yn hoffi cynnig cyfle i'n darllenwyr ennill gwobr. Felly, os ydych yn un o fusnesau Wrecsam gyda rhywbeth yr hoffech ei gynnig (nwyddau neu wasanaethau) yna cysylltwch â ni gyda'r manylion.

Mae hon yn ffordd wych o wneud y cyhoedd yn fwy ymwybodol o'ch busnes a rhoi cipolwg i'n darllenwyr ar beth sydd gennych i gynnig. Byddwn yn cynnal un gystadleuaeth y rhifyn ac, felly, bydd gwobrau'n cael eu cynnig ar sail y cyntaf i'r felin gaiff falu. Felly cofiwch gysylltu â ni'n fuan.

Os oes gennych wobr yr hoffech ei chynnig fel rhan o gystadleuaeth yn Cyswllt, cofiwch gysylltu â ni yn connect@wrexham.gov.uk neu Cystadlaethau Cyswllt, Uned Gyfathrebu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Stryt y Lampint, Wrecsam LL11 1AR.

NEWIDIADAU I GASGLIADAU O FINIAU DROS Y PASG

Cofiwch ddarllen eich sticer bin! Bydd Gwyliau Banc y Pasg yn golygu newidiadau i'ch diwrnod casglu.

Bydd newidiadau'n dechrau ar 27 Mawrth a bydd diwrnodau casglu arferol yn ailddechrau ar 10 Ebrill. Cofiwch, oherwydd y Gwyliau Banc hyn, y bydd eich bin yn cael ei wagio'n gynharach yn yr wythnos nag arfer.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael hefyd ar ein gwefan www.wrecsam.gov.uk neu drwy ffonio 01978 298989.

Hwyl Hurt y Pasg

Erbyn hyn mae gwyliau'r Pasg ar ein gwarthaf – felly gwnewch yn siŵr fod gennych eich copi o Hwyl Hurt y Pasg 2010. Cymrwch gopi o'ch canolfan hamdden a gweithgareddau leol, llyfrgell, safle treftadaeth, Canolfan Groeso, derbynfa'r Cyngor neu Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam, sydd yn Llyfrgell Wrecsam.

I gael rhagor o wybodaeth, neu i gael copi drwy'r post, ffoniwch 01978 297488.

EIN BLAENORIAETH!

Yn rhifynnau blaenorol Cyswllt rydym wedi dweud wrthych am dair blaenoriaeth a saith maes gwella Cyngor Wrecsam ar gyfer 2009 i 2012. Yn y rhifyn hwn gallwch ddod i wybod mwy, felly gwyliwch wrth i chi ddarllen y cylchgrawn hwn i gael gwybod mwy am beth sydd gan y Cyngor mewn golwg.

PENNOD NEWYDD YN LLYFRGELL WRECSAM

Ydych chi wedi bod yn Llyfrgell Wrecsam yn ddiweddar? Mae wedi cael ei hailwampio'n sylweddol ac mae'n edrych yn newydd sbon a mwy fyth i gynnig.

Yn ôl ym mis Mai 2009 cyhoeddodd Alun Ffred Jones, y Gweinidog dros Dreftadaeth, y swm mwyaf erioed oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu'r gwasanaeth llyfrgelloedd yng Nghymru, ac roedd hyn yn golygu bod Wrecsam wedi derbyn bron £310,000 i wella Llyfrgell Wrecsam.

Ers hynny mae adran Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliant Cyngor Wrecsam wedi bod yn lladd ei hun yn cydgysylltu symud y llyfrgell i lety dros dro (hen siop Kwiksave ar Stryt Caer), ac yn gweithio gyda'r contractwr i sicrhau bod yr holl welliannau'n digwydd ar amser ac o fewn y gyllideb.

Mae'r gwelliannau a wnaed yn cynnwys ymestyn y llawr cyntaf i wella cyfleusterau astudio a dysgu; lle i arddangos celfyddyd leol; lifft newydd i wella mynediad i'r anabl; wi-fi fel bod pobl yn gallu defnyddio'u gliniaduron a dyfeisiau symudol eu hunain yn y llyfrgell; ac adfywio stoc y llyfrau, DVD ac adnoddau eraill.

Mae Llyfrgell Wrecsam ar ei newydd wedd hefyd yn elwa ar gyfleusterau newydd sbon, fel desgiau hunanweini a Mediatheque BFI (Sefydliad Ffilm Prydain) – y cyntaf o'i fath yng Nghymru.

Cynhaliwyd agoriad mawreddog y llyfrgell newydd ar 22 Mawrth. Gwahoddwyd gwestai arbennig, a Hyrwyddwr Llyfrgelloedd Cymru, yr actores ac ysgrifenwraig Ruth Jones o Gavin & Stacey i agor y llyfrgell ac roedd yn llawn edmygedd o'r gwasanaethau newydd a gwell ar gael yno. Meddai Ruth: 'Yn ystod fy amser yn gweithio gyda llyfrgelloedd Cymru rwy'n ymwybodol o rai prosiectau ailwampio rhyfeddol ac mae'r llyfrgell yn Wrecsam yn enghraifft eto fyth o sut mae arian Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gallu gwneud gwahaniaeth mawr.

> 'Rwy'n hapus iawn i gefnogi'r ailwampio yn Wrecsam.'

Nododd ymweliad Ruth ddechrau wythnos gyfan o ddathlu, pryd y daeth carwyr llyfrau, defnyddwyr cyfrifiaduron, haneswyr, dysgwyr aeddfed a dilynwyr ffilmiau, yn oedolion, pobl ifanc a phlant, i weld beth oedd gan y llyfrgell ar ei newydd wedd i gynnig.

Nid newyddion da i'r llyfrgell yn unig ...

Nid y llyfrgell yn unig sydd wedi elwa ar grant Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gwariwyd llawer o'r arian gyda chyflenwyr a chontractwyr lleol, sy'n golygu ei fod wedi cael ei droi'n ôl i'r economi lleol.

Aeth bron hanner yr arian a roddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru at adnewyddu'r llyfrgell (£145,250) i gwmni adeiladu lleol, Maelor Construction o Fryn-teg. Amcangyfrifwyd bod £10,000 ychwanegol wedi elwa contractwyr lleol eraill.

Hefyd, er mwyn cadw gwasanaethau'r llyfrgell ar agor yn ystod yr ailwampio, gwariwyd £24,500 arall yn lleol ar symud y llyfrgell i'w hadeilad dros dro yng nghanol y dref.

Erioed wedi bod? Rydych chi'n colli cyfle!

Os na fuoch yn Llyfrgell Wrecsam erioed, dyma amser bendigedig i wneud y gorau o'r cyfleusterau gwych sydd yno – y rhan fwyaf ohonynt am ddim!

Dyma ychydig o'r pethau sydd ar eich cyfer yn Llyfrgell Wrecsam:

- Ffuglen a llyfrau ffeithiol
- Llyfrau print bras (ddim ar gael i'w prynu yn unrhyw siop lyfrau nac ar-lein)
- Llyfrau llafar
- Cyngor a gwybodaeth i fusnes
- DVD (dim ond £2.75 i logi'r rhai diweddaraf am wythnos gyfan)
- CD
- Mynediad am ddim i'r rhyngrwyd band eang
- Papurau newydd
- Gwasanaeth gwybodaeth gyfeiriol
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau hyn ar gael yng nghanghennau llyfrgell Wrecsam hefyd!

Beth yw BFI Mediatheque?

Llyfrgell Wrecsam yw'r lle cyntaf yng Nghymru i osod BFI Mediatheque - jiwcbocs digidol o ffilmiau a rhaglenni teledu o Archif Genedlaethol y BFI.

Mae'r archif yn cynnwys lluniau mawrion, ffilmiau dogfennol, rhaglenni teledu, ffilmiau a fideo artistiaid, ffilmiau newyddion a ffilmiau cartref yn ymestyn o ddyddiau cynharaf sinema hyd heddiw. Bydd cynnwys newydd yn cael ei ychwanegu'n rheolaidd ac, ar hyn o bryd, mae dros 900 awr o ffilm a theledu ar gael, yn amrywio o berlau cudd i hoff glasuron.

Mae'r BFI hefyd wedi ymuno ag Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru i dynnu ynghyd casgliad arbennig o ffilmiau a deunydd teledu o ddiddordeb arbennig i wylwyr Cymreig.

Newid gwedd yn Owrtyn hefyd

Wyddech chi fod Llyfrgell Owrtyn wedi cael ei hailwampio hefyd? Ar 14eg Rhagfyr daeth cynghorwyr a phobl leol yno i ddathlu.

Cafodd Llyfrgell Owrtyn drawsffurfiad rhyfeddol gyda llyfrau newydd, cyfrifiaduron a chasgliad DVD, yn ogystal â dodrefn newydd. Cofiwch alw heibio a manteisio ar y dewis mawr o wasanaethau sydd ar gynnig.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r llyfrgell ar 01978 710557.

BYDDWCH YN BAROD!

Nid oes modd atal llifogydd bob amser ac, felly, mae'n hanfodol eich bod yn cymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu eich hun a'ch eiddo, os ydych yn byw mewn ardal lle mae perygl llifogydd, trwy baratoi ymlaen llaw.

I helpu i chi wneud hyn, mae Cyngor Wrecsam wedi bod yn gweithio'n agos gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth o beryglon llifogydd i gartrefi a busnesau yn y fwrdeistref sirol. Gyda'i gilydd byddant yn rhoi gwybodaeth am y camau hunangymorth ymarferol y gallwch eu cymryd i baratoi ymlaen llaw a hyrwyddo'r gwasanaeth rhybudd rhag llifogydd am ddim.

TRI CHAM ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD CYMRU AT BARATOI AR GYFER LLIFOGYDD:

1. Cadarnhau eich statws o ran perygl llifogydd trwy ffonio Floodline ar 0845 988 1188 neu ymweld ag www.environment-agency.gov.uk
2. Cofrestru ar gyfer rhybuddion rhag llifogydd ar y rhif ffôn uchod os byddwch yn darganfod eich bod mewn perygl (enw'r gwasanaeth yw Floodline Warnings Direct). Gallwch dderbyn rhybuddion rhag llifogydd yn uniongyrchol i'ch ffôn cartref neu symudol, trwy e-bost neu fel ffacs.
3. Cynhyrchu cynllun llifogydd fel eich bod yn barod ymlaen llaw (gallwch lawrlwytho templed o gynllun llifogydd defnyddiol o www.environment-agency.gov.uk)

Bwyd i'r Ymennydd – a'r Ardd!

Ydych chi'n ffansïo codi tipyn o wrtaith am ddim i'ch gardd? Y gwanwyn hwn bydd dau gyfle i chi wneud hynny'n union!

Galwch heibio un o Achlysuron Gwrtaith Rhad fel Baw yn Wrecsam – cofiwch ddod â sach a rhaw – a gallwch gael tipyn o wrtaith am ddim i fynd adref a'i ddefnyddio yn eich gardd.

Bydd Achlysuron Gwrtaith Rhad fel Baw yn cael eu cynnal ar y diwrnodau canlynol:
5 Mai ym Mharc Gwledig Dyfroedd Alun
8 Mai ym Mharc Gwledig Tŷ Mawr

Daw'r gwrtaith am ddim hwn o'r deunyddiau ailgylchu a gasglwyd fel rhan o'r cynllun Ailgylchu efo Michael ac mae'n cael ei gyflenwi gan Waste Recycling Group Ltd.

Os ydych yn ffansïo gwneud eich gwrtaith eich hun, gallwch brynu bin compost am £14.30 (gan gynnwys cludiant) trwy alw 01978 298989. Gallwch ei ddefnyddio i gompostio llawer o bethau gan gynnwys crwyn ffrwythau a llysiau, sachau te, cardbord gwrymiog a hyd yn oed flew anifeiliaid anwes – ffordd wych o wneud gwrtaith i'w ddefnyddio yn eich gardd.

AROLWG ARCHWILIAD CYHOEDDUS

Yn dilyn arolwg cyhoeddus ym mis Mawrth 2009, cynhaliodd y Cyngor Weithdy Cynllunio Rhaglenni Gwaith Archwilio ym mis Gorffennaf, i wahodd barn ar ba faterion y dylai Pwyllgorau Archwilio'r Cyngor graffu arnynt yn y flwyddyn a ddaw. Roedd y rhain yn cynnwys:-

- Ymgynghori ac ymwneud â thrigolion
- Taliadau gofal cymdeithasol
- Camddefnyddio sylweddau
- Ffyrdd a phalmentydd
- Dŵr arwyneb a llifogydd
- Cefnogi plant anabl drwy'r dydd bob dydd

Bydd y materion uchod yn cael eu hystyried yng nghyfarfodydd un o'r Pwyllgorau Archwilio, sydd ar agor i'r cyhoedd (os na fydd yn dweud yn wahanol) ac, fel arfer, yn cael eu cynnal yn Neuadd y Dref, Wrecsam. Mae rhagor o fanylion rhaglenni gwaith a dyddiadau cyfarfodydd i'w cael ar wefan y Cyngor www.wrexham.gov.uk/english/council/forward_work_programme/scrutiny.htm. Fel arall, gallwch gysylltu â Keith Lea, Rheolwr Archwilio, ar 01978 292257.

hysbyseb

PEN BUSNES DA

Dau ddegawd yn ôl perswadiodd athrawes ddosbarth yn Ysgol Arbennig Sant Christopher yn Wrecsam ei chydweithwyr i sefydlu salon trin gwallt yn yr ysgol. Wrth deimlo rhwystredigaeth bod disgyblion yn treulio lleoliadau gwaith gwerthfawr yn ysgubo lloriau a gwneud cwpaneidiau o de, dyna pryd ganed syniad mentergarwch yn yr ysgol.

Pennaeth Maxine Pittaway (canol) yn derbyn ei gwobr

Ers hynny, mae Maxine Pittaway – yr athrawes ddosbarth ar y pryd – wedi gweithio ei ffordd i fyny nes dod yn bennaeth yr ysgol. Drwy'r blynyddoedd mae wedi sefydlu amrywiaeth o fentrau eraill, o olchfa geir i gaffi, gardd farchnad, prosiect ailgylchu beiciau a byddin amgylcheddol.

Ar ôl gofyn iddi beth oedd yn ysbrydoli'r mentrau'r ysgol, meddai: 'Roeddwn yn teimlo y gallai ein pobl ifanc wneud llawer mwy na chawsant ei wneud. Fe wyddwn pe byddem yn dysgu'r sgiliau iawn iddynt y gallent gael achrediad yn union fel plant prif ffrwd.

'Heddiw, rydym yn gwneud CGC un a dau mewn gwallt a harddwch, ac mae'r plant yn cael credydau Rhwydwaith y Coleg Agored am beth bynnag a wnânt. Dylai addysg fod ynghylch y pethau y gallwch eu gwneud yn hytrach na'r pethau na allwch chi ddim.'

Mae'r agwedd ysbrydoledig hon wedi arwain at goroni Mrs Pittaway yn enillydd cenedlaethol Gwobr Menter DCSF yng Ngwobrau Addysgu 2009, ar ôl ennill rownd Cymru.

Yn dilyn ei hymweliad ag Ysgol Sant Christopher, meddai un o feirniaid y wobr: 'O ganlyniad i'w gweledigaeth a'i phenderfyniad mae Ysgol Sant Christopher yn wahanol i'r holl ysgolion anghenion arbennig eraill yr ymwelais â hwy erioed, na chlywed amdanynt chwaith. Dychwelais o'r ymweliad yn teimlo'n ysbrydoledig ond hefyd braidd yn annigonol na fedrais roi cyfleoedd tebyg i'm disgyblion fy hun.'

Cyrsiau Darllen Gwefusau Am Ddim

Os ydych yn fyddar neu'n drwm eich clyw, mae dysgu darllen gwefusau'n ffordd wych o feithrin eich hyder a helpu i chi ymdopi â rhai o'r sefyllfaoedd lletchwith hynny sy'n gwneud i chi deimlo'n bryderus.

Mae Cymdeithas Pobl Fyddar Gogledd Cymru (NWDA) yn cynnal cyrsiau rheolaidd darllen gwefusau yn Wrecsam, am ddim. Bydd y cwrs 10 wythnos nesaf yn dechrau ar 13 Ebrill, a bydd yn cael ei gynnal yn Nhŷ AVOW, 21 Stryt Egerton, Wrecsam LL11 1ND rhwng 3.30pm a 5pm.

EIN BLAENORIAETH!

Dyma'n Blaenoriaeth… Wyddech chi fod tua 147 o bobl ifanc yn byw yn y Fwrdeistref Sirol sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant?

Yr enw cyffredin arnynt yw pobl ifanc NEET (not in employment, education and training) ac mae'n un o brif flaenoriaethau'r Cyngor eleni i'w helpu.

Gall mynd i'r afael â mater NEET yn gynnar fel hyn arbed cannoedd a miloedd o bunnoedd am bob NEET dros eu hoes mewn budd-daliadau a gwasanaethau cymdeithasol eraill sy'n aml yn effeithio ar eu bywydau. Mae'r astudiaeth gyntaf o'r ffenomen ar raddfa fawr, yn dwyn yr enw Cost Allgáu, yn amcangyfrif fod hyd at filiwn o bobl ifanc yn costio £3.65 biliwn y flwyddyn i economi'r DU.

Allyriadau Carbon

Mae staff yng Nghyngor Wrecsam wedi bod yn profi mesuryddion craff newydd i weld faint o ynni maent yn ei ddefnyddio gartref. Mae'r canlyniadau wedi bod yn eithaf dramatig gyda llawer o'r staff yn cymryd camau eithafol i leihau eu biliau trydan a gwneud eu rhan i helpu'r blaned.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i leihau eich allyriadau carbon, ewch i wefan y llywodraeth Gweithredu ar CO_2 neu edrychwch ar wefan yr Ymddiriedolaeth Garbon.

Cynnig Arbennig i Berchenogion Cŵn yn Wrecsam

Mae Gwasanaeth Wardeiniaid Cŵn Cyngor Wrecsam yn casglu dros 600 o gŵn crwydr bob blwyddyn, rhai wedi bod mewn damweiniau traffig. Darllenwch fwy i weld sut allwch leihau ysfa grwydro eich ci ac arbed arian!

Ydych chi…

…eisiau arbed hyd at £150?

…yn cael budd-daliadau â phrawf moddion neu ydych chi'n un o denantiaid y Cyngor?

…eisiau i'ch ci fod yn hapus ac iach?

Os ydych chi wedi ateb ydw, mae'r erthygl hon yn berthnasol i chi!

Mae Cyngor Wrecsam yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Cŵn i roi cynnig arbennig i berchenogion cŵn arbed arian a sicrhau bod yr holl gŵn sy'n byw yn y cylch yn anifeiliaid anwes dymunol i'w cael yn eich cartref a'ch cymdogaeth.

Manteisiodd Julie James (yn y llun gyda'i merch Ruby a'u ci, Misty) ar y cynllun arbed arian hwn

Mae'n hawdd cymryd rhan. Dim ond cofrestru eich ci yn Swyddfa Dai leol y Cyngor a byddant hwy'n gofalu am y gweddill. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw talu £30 tuag at gael ysbaddu eich ci a rhoi sglodyn ynddo – gostyngiad o £150 ar y pris arferol.

Felly peidiwch ag oedi. Galwch heibio unrhyw swyddfa dai leol heddiw, i fanteisio ar y cynnig arbennig hwn. Bydd y swyddog tai'n dangos i chi hefyd sut y gallwch gael pob math o wybodaeth am gadw'ch ci'n iach, ei hyfforddi'n dda a bod yn hapus yn eich cartref.

NEWID GWEDD FFREUTUR BRYN ALUN

Mae mwy a mwy o ddisgyblion yn Ysgol Bryn Alun, Gwersyllt yn mwynhau prydau iach dros amser cinio, diolch i gwblhau ffreutur newydd modern.

Yn ddiweddar agorodd yr ysgol ffreutur newydd sbon at ddefnydd ei disgyblion. Mae'r newid gwedd £80,000 wedi gweld trawsffurfio'r ffreutur yn lle golau ac ysgafn, gyda sgriniau digidol yn dangos y dewisiadau sydd ar gael ar fwydlen y diwrnod hwnnw, gwybodaeth am faeth bwydydd iach sydd ar y fwydlen a chynigion arbennig.

Bob dydd mae rhestr o fwydydd iach i'r disgyblion ddewis ohoni. Ble bynnag y bo modd caiff deunyddiau lleol eu defnyddio a, gyda phrisiau am bryd dau gwrs yn dechrau ar £1.95, mae'n bendant bod gwerth am yr arian yn bwysig.

Mae nifer y disgyblion sy'n cael eu cinio yn yr ysgol wedi cynyddu ac mae'r ysgol bellach yn darparu ar gyfer dros 370 o bobl ifanc bob dydd. Arweiniodd hyn at ailfeddwl dulliau gweithredu arferol ac mae'r ysgol wedi taro ar ffordd o gwtogi'r amser aros – un wythnos bydd y bechgyn yn mynd gyntaf a'r nesaf y merched. Ni ŵyr neb yn union pam, ond mae hyn wedi lleihau'r amser aros ac mae'n rhoi mwy o amser i ddisgyblion fwynhau eu hamser cinio gyda chyfeillion.

Mae'r newidiadau yn yr ysgol yn rhan o gynllun rhagbrofol Blas am Oes Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n sicrhau bod prydau sy'n cael eu gweini'n cynnwys llai o fraster, siwgwr a halen, a mwy o fitaminau a mwynau.

Meddai'r Pennaeth, Rob Ratcliffe: 'Rwyf wrth fy modd gyda'r ailwampio ac yn ddiolchgar i'n cydweithwyr yng Nghyngor Wrecsam am eu cefnogaeth. Byddwn yn ymdrechu i gyflwyno'r gorau i'n pobl ifanc ac maent yn gwerthfawrogi'r gwelliannau'n fawr. Erbyn hyn mae mwy o ddisgyblion yn defnyddio'r ffreutur ac mae bwydlenni'n gwella drwy'r adeg diolch i Sue Thomas ein Pen Cogydd. Rydym yn ymrwymo i'r cynlluniau Ysgolion Iach a Blas am Oes, ac mae ein pobl ifanc yn brysur iawn yn eu datblygu.'

GO IAWN!

Laura Richmond a'i baban Harriet yn gefnogwyr clytiau go iawn

Mae llawer o bobl yn meddwl bod clytiau go iawn wedi darfod amdanynt, ond maent yn dod yn ôl ar newydd wedd!

Wedi hen fynd mae dyddiau pinnau clwt mawr a berwi clytiau terri. Mae clytiau modern go iawn yn hawdd eu cau gyda chlecwyr neu Velcro, gallwch roi'r leinin mewnol i lawr y toiled, ac mae'r gorchuddion diddos yn dod mewn pob math o gynlluniau ffasiynol.

Rhoddodd Laura Richmond, mam o Wrecsam, gynnig arnynt pan gafodd fenthyg pecyn clytiau go iawn gan Gyngor Wrecsam a Fforwm Cynaliadwyedd Wrecsam. Ar ôl rhoi cynnig arnynt, meddai Laura: 'Rwyf wedi buddsoddi mewn cryn dipyn o glytiau go iawn; rwy'n eu cael yn wirioneddol hawdd eu defnyddio ac yn arbed llawer o arian!'

Wythnos Clytiau Go Iawn 2010 26 Ebrill – 2 Mai

Ffeithiau clytiog:

- Bydd baban yn defnyddio rhyw 5000 o glytiau dros 2½ flynedd
- Byddai 5000 o glytiau'n pwyso'r un faint â char teulu cyffredin
- Ar gyfartaledd bydd rhiant yn gwario hyd at £1,300 ar glytiau
- Yr amcangyfrif yw bod 200 miliwn o glytiau'n cael eu taflu, a'u hanfon i dirlenwi, yng Nghymru bob blwyddyn – mae cael gwared arnynt yn costio tua £2 filiwn i drethdalwyr Cymru
- Mae clytiau'n cymryd rhyw 300 mlynedd i bydru.

Os ydych eisiau helpu'r blaned a'ch arian yn y banc, cysylltwch â Catherine Knight, Swyddog Ailgylchu Cyngor Wrecsam, ar 01978 729693 i gael gwybod mwy am y pecynnau profi clytiau go iawn.

MEND – Mind, Exercise, Nutrition…Do it!

Mae un o bob tri o blant dros y pwysau iach ar gyfer eu taldra. Os yw hyn yn rhywbeth sy'n wir ar eich aelwyd chi, yna'r rhaglen MEND yw'r gic gychwyn iach y gallech fod yn chwilio amdani.

Yn dechrau ar 26 Ebrill 2010, mae'r rhaglen 10 wythnos AM DDIM hon yn anelu at blant 7-13 oed sy'n rhy drwm, a'u teuluoedd, ac mae'n gyfle rhagorol i ddod yn fwy ffit, iach a hapus.

Mae nifer cyfyngedig o leoedd ar gael ar y cwrs hwn yng Nghanolfan Hamdden a Gweithgareddau Clywedog diolch i Gyngor Wrecsam a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ffurfiwyd y rhaglen o sesiynau dwyawr sy'n cael eu cynnal ddwywaith yr wythnos am 10 wythnos, lle bydd gwersi ymarferol ar arferion bwyta ac ymarfer yn ceisio gwella ffitrwydd, gweithgarwch corfforol, maetheg a hunan-barch plant.

Meddai Bethan Hughes, Rheolwr Rhaglen MEND yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam: 'Mae teuluoedd sydd wedi bod ar y cwrs o'r blaen wedi cael llawer o lwyddiant ac mae'n newid bywydau teuluoedd. Daw plant yn iachach a mwy ffit ac rydym wedi gweld eu hunan-barch a hyder yn cynyddu'n fawr. Rydym yn gwneud popeth i gynnig cyfle i deuluoedd yn Wrecsam wella eu hiechyd gyda'r cwrs gwych hwn am ddim.'

I gael rhagor o wybodaeth neu i gofrestru ar gyfer y cynllun, ffoniwch Bethan Hughes rheolwr y rhaglen ar 01978 292088, rhadffôn 0800 230 0263 neu ymwelwch ag www.mendprogramme.org

O'r chwith i'r dde: Bethan Hughes, Alys Roberts, Gavin Maloney.

EIN BLAENORIAETH! LLAWER YN DIGWYDD …

Gweithio tuag at ddarparu tai fforddiadwy priodol yw un o flaenoriaethau corfforaethol Cyngor Wrecsam ac mae digonedd yn digwydd ar y funud. Darllenwch fwy i gael gwybod am rai o'r prosiectau sydd ar y gweill ar hyn o bryd …

Wyddech chi os ydych yn ymgodymu i brynu cartref y gallwch gael hwb i'ch cael ar yr ysgol eiddo, yn dibynnu ar incwm a hawl?

Dyma pam fod Cyngor Wrecsam yn gweithio gyda Chymdeithas Tai Clwyd i ddyfeisio Cofrestr Perchenogion Tai er mwyn i ni allu dweud wrthych pan ddaw cyfleoedd. Os hoffech fynd ar y gofrestr, ymwelwch ag www.wrecsam.gov.uk.

Bydd ffair prynwyr cartrefi ar 17 Ebrill yng Nghanolfan Gynadledda Catrin Finch Prifysgol Glyndŵr, Plas Coch.

Mae'n dod ag arbenigwyr eiddo at ei gilydd, gan gynnwys gwasanaeth tai'r Cyngor, i gynnig cyngor i bobl sydd eisiau prynu am y tro cyntaf. Edrychwch ar www.wrecsam.gov.uk i gael rhagor o fanylion.

BWYD DA A CHWMNI DA

Os ydych yn mwynhau bwyd da (heb dalu crocbris) a chwmni da, yna beth am roi cynnig ar un o nifer cynyddol o glybiau cinio Wrecsam.

Erbyn hyn mae 28 o'r clybiau hyn ar hyd a lled y sir, y cyfan ohonynt yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr. Maent ar agor i holl grwpiau oedran ac yn cael eu cynnal mewn amrywiaeth o fannau gan gynnwys canolfannau cymunedol, ysgolion, a hyd yn oed mewn tafarnau a thai bwyta.

I gael gwybod am eich clwb cinio agosaf, ymwelwch ag www.wrecsam.gov.uk, neu ffonio Chris Brownridge ar 08450 549822, neu Eileen Spencer ar 01978 298614.

Â diddordeb mewn gwirfoddoli?
Os ydych yn mwynhau paratoi bwyd ac eisiau rhoi gwasanaeth gwerthfawr i'ch cymuned leol, gallai gwirfoddoli mewn clwb cinio fod yn syniad; gall arwain hefyd at gyfleoedd hyfforddiant. Cysylltwch â Chris Brownridge ar 08450 549822 i gael rhagor o wybodaeth.

Â diddordeb mewn dechrau Clwb Cinio?
Ffansïo dechrau clwb cinio yn eich cylch lleol? Mae Cyngor Wrecsam yn cynnig cyfleoedd i wneud cais grantiau dechrau busnes. Cysylltwch ag Eileen Spencer ar 01978 298614 i gael rhagor o wybodaeth.

Ysgol Heulfan yn 'Eithriadol Dros Ben'

Mae staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni'n dathlu, ar ôl cydnabod Ysgol Heulfan, Gwersyllt fel ysgol eithriadol yn dilyn arolwg Estyn.

Enwodd yr adroddiad lawer o nodweddion nodedig yn yr ysgol gan gynnwys arddull addysgu ysgogol ac arloesol, gofal, cefnogaeth a chyfarwyddyd o ansawdd uchel iawn, ac arweinyddiaeth a rheolaeth ysbrydoledig.

Yn ogystal â sylwadau cadarnhaol o'r fath, cafodd yr ysgol hefyd rai amcanion ar gyfer y flwyddyn a ddaw. Bydd Ysgol Heulfan bellach yn ceisio datblygu mwy ar sgiliau dwyieithrwydd disgyblion ac yn rhoi gwaith â mwy o her ynddo i'r disgyblion sy'n cyflawni uchaf.

GALW WRECSAM… AR ÔL BLWYDDYN

Agorodd Galw Wrecsam fel gwasanaeth newydd "wyneb yn wyneb" ar gyfer Cyngor Wrecsam ym mis Ionawr 2009 ac, ar ôl blwyddyn, mae'r gwasanaeth yn mynd o nerth i nerth.

Mae staff sy'n gweithio yn y Ganolfan wedi helpu dros 35,000 o gwsmeriaid gydag ymholiadau'n rhedeg o sut i wneud cais am fudd-daliadau, i ofyn am Gerdyn Trên Pobl Hŷn neu gael hyd i gi a gollwyd.

Meddai Brenda Leach, Rheolwr Galw Wrecsam "Fel Cyngor rydym yn darparu dewis mawr o wasanaethau a gall cwsmeriaid ei chael yn anodd gwybod efo pwy i gysylltu. Yn Galw Wrecsam rydym yn delio â holl ymholiadau'r Cyngor mewn un lle. Caiff ein Cynghorwyr eu hyfforddi i ddelio ag amrywiaeth eang o faterion neu, os na fyddwn yn gwybod yr ateb, byddwn yn cael hyd i'r un iawn i helpu.

Mae cwsmeriaid hefyd y cael y cyfleusterau hunanweini sydd gennym yn wirioneddol ddefnyddiol. Mae gennym gaban sy'n gallu cymryd taliadau arian parod neu gerdyn debyd am wasanaethau'r Cyngor fel Treth y Cyngor neu rent. Gall cwsmeriaid bicio i Galw Wrecsam a gwneud taliad heb orfod ciwio."

Bwriad Cynghorwyr Galw Wrecsam yw ceisio rhoi gwasanaeth o safon ragorol mewn amgylchoedd cysurus, golau a modern. Mae'n rhoi dewis arall i gwsmeriaid ar sut i gysylltu â'r Cyngor ac mae'n ychwanegu at y gwasanaethau sy'n cael eu darparu eisoes trwy'r wefan www.wrecsam.gov.uk, teledu digidol a'r Ganolfan Gysylltu dros y ffôn.

Felly, os bydd gennych ymholiad ynghylch gwasanaethau Cyngor Wrecsam, cofiwch ymweld â Galw Wrecsam yn 16 Stryt yr Arglwydd – dim ond tafliad carreg o'r orsaf fysiau.

Mae'r Ganolfan ar agor o 8.30 i 5.30 o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Mae Galw Wrecsam yn dod â chi wyneb yn wyneb â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Yn Galw Wrecsam, gallwch siarad ag un o'n cynghorwyr cwsmeriaid a hyfforddwyd ynghylch amrywiaeth o wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys:

- Strydoedd o Fri
- Budd-daliadau Tai
- Cardiau Bws
- Derbyniadau Ysgol
- Treth y Cyngor
- Bathodynnau Glas
- Prydau Ysgol
- Gwisgoedd Ysgol

Gallwch hefyd:-
Wneud taliad neu dalu bil rheolaidd
Defnyddio'r rhyngrwyd i gael gafael ar wasanaethau'r Cyngor

Edrychwn ymlaen at eich helpu

wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

contact wrexham galw wrecsam

Hysbyseb yw hwn

AILALLUOGI WRECSAM

Ers mis Hydref 2008, mae Gwasanaethau Cymdeithasol Wrecsam wedi gweithredu gwasanaeth ailalluogi mewn partneriaeth â chydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'r gwasanaeth hwn yn helpu oedolion sydd wedi gweld dirywiad yn eu hiechyd, gan eu cefnogi i adennill sgiliau a gollwyd. Cwrs 6 wythnos yw'r gwasanaeth, a'r gobaith yw y bydd pobl mor annibynnol ag y gallant fod erbyn ei ddiwedd.

Bydd unigolion yn cyrraedd eu nodau mewn partneriaeth â therapyddion a gofalwyr cartref ac, yn aml iawn, gyda chefnogaeth eu gofalwyr, teulu agos a chyfeillion eu hunain.

Un sydd wedi gallu manteisio ar y gwasanaeth yw Mrs Cowlishaw. Yn dilyn syrthio ym mis Tachwedd, pan dorrodd asgwrn yn ei braich chwith, nid oedd yn gallu gwneud rhai o'r pethau yr oedd yn cymryd yn ganiataol o'r blaen fel ymolchi, gwisgo a pharatoi ei bwyd ei hun.

Trefnodd y tîm Ailalluogi ofal ac offer ar ei chyfer mewn byr amser er mwyn helpu iddi ddychwelyd adref. Nawr, rhan o'r ffordd trwy'r cwrs, mae Mrs Cowlishaw'n gallu ymdopi'n llawer gwell gyda chefnogaeth y tîm. Meddai: 'Rwyf eisiau diolch i bawb, yn enwedig y gofalwyr am fod yn effeithlon a charedig. Ni fyddwn wedi gallu dod i ben hebddynt.'

CINIO YSGOL AM DDIM

Mae Gwasanaeth Prydau Ysgolion Wrecsam wedi gwella sut mae'n penderfynu pwy sydd â hawl i Ginio Ysgol am Ddim. Mae hyn yn golygu bod proses gwneud cais am ginio am ddim yn haws.

Ble bynnag y bo modd, bydd y gwasanaeth yn defnyddio gwybodaeth sy'n cael ei dal eisoes gan adrannau eraill y Cyngor i roi hawl i Ginio Ysgol am Ddim i blant y rhieni neu warcheidwaid hynny sy'n derbyn Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth y Cyngor.

Y gobaith yw y bydd y drefn newydd hon yn golygu na fydd mwyafrif llethol y teuluoedd hynny'n gorfod llenwi ffurflen gais bob blwyddyn ac, felly, yn cynyddu nifer y plant sy'n derbyn y budd-dal hwn.

Os byddwch yn gweld bod angen i chi lenwi ffurflen gais, maent ar gael o bob ysgol, Galw Wrecsam neu yn www.wrecsam.gov.uk.

Kayliegh y Llysgennad Ifanc

Curodd Kayliegh Jones o Llai gystadleuaeth gref o Swydd Stafford, Cilgwri, Sir Gaer a Glannau Mersi, i ddod yn Llysgennad Ifanc Dosbarth 2010 o Glwb y Llewod Rhyngwladol.

Mudiad elusennol yw Clwb y Llewod Rhyngwladol sy'n gweithio gydag amrywiaeth eang o bobl yn y gymuned i helpu iddynt ateb heriau bywyd. Fel sefydliad rhyngwladol, mae'n weithredol mewn 202 o wledydd ac mae ganddo dros 1.3 miliwn o aelodau – 18000 ohonynt yn y DU.

Enwebwyd Kayliegh am y wobr gan Paul Crewe, Gweithiwr Ieuenctid mewn Gofal yng Ngwasanaeth Ieuenctid Cyngor Wrecsam, am ei chyfraniad at Glwb Ieuenctid Llai. Cafodd Kayliegh flaenlencyndod cythryblus, ond helpodd ei chyfranogiad yn y clwb newid ei bywyd. Erbyn hyn mae'n gwirfoddoli ar ôl sefydlu grŵp dawnsio stryd gydag arian a gafodd gan Sports Relief Unlimited.

Meddai Ann Owen, Aelod o Glwb y Llewod: 'Rydym yn falch iawn o gamp Kayliegh ac yn edrych ymlaen at weithio efo hi yn y dyfodol". Fel yr oedd Cyswllt yn mynd i'r wasg roedd Kayliegh'n aros i glywed a oedd hefyd wedi ennill lle fel un o 12 llysgennad ifanc terfynol Prydain. Bydd y 12 terfynol hyn yn ennill lle yn y fforwm rhyngwladol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

O'r chwith i'r dde: Glennis Saunders (Stone Lions), Kayliegh Jones, Ann Owen (Swyddog Ieuenctid Llewod Wrecsam) a Frank Marnell (Llywodraethwr Dosbarth y Llewod)

CANOLFAN WYBODAETH LEOL HEFYD!

Canolfan Groesawu Ymwelwyr (TIC) – gellid maddau i chi am feddwl bod yr ateb yn yr enw. Felly gallai eich synnu i ddysgu mai pobl leol yw o leiaf hanner cwsmeriaid Canolfan Groeso Wrecsam.

Mae'r ganolfan mewn man hwylus ar Stryt y Lampint, ychydig oddi ar Sgwâr y Frenhines, ac mae ar agor chwe diwrnod yr wythnos. Felly beth am alw heibio'r tro nesaf y byddwch yn y dref a chael gwybod am ddigwyddiadau lleol a phethau eraill i'w gweld a'u gwneud yn Wrecsam?

Fe welwch bentyrrau o bamffledi ac arweinlyfrau ac, os gwelwch rywbeth sy'n mynd â'ch bryd, gallech hyd yn oed archebu eich tocynnau yn y fan a'r lle.

Bydd Melvin Jones, sy'n byw yn Hightown, Wrecsam, yn galw heibio'r Ganolfan Groeso'n rheolaidd. Meddai: 'Rwyf wedi bod yn dod yma ers blynyddoedd ac mae'r staff bob amser mor gymwynasgar a chyfeillgar.

'Mae'n ffordd mor hawdd o gael gwybod beth sy'n digwydd yn y cylch – digwyddiadau, cyngherddau, llefydd i ymweld â nhw a'r math hynny o beth. Rwy'n dod yma'n aml i brynu tocynnau a chadw seddau theatr.

'Weithiau byddwch yn anghofio faint o bethau sydd i'w gweld a'u gwneud ar stepan eich drws, ond mae ymweld â'r Ganolfan Groeso'n ffordd wych o atgoffa eich hun.'

Mae pump o gynorthwywyr Canolfan Groeso yn Stryt y Lampint. Rhyngddynt mae ganddynt dros 73 blynedd o brofiad ac mae pob un ohonynt yn byw'n lleol – felly does dim llawer na allant ddweud wrthych am Wrecsam!

Yn ogystal â rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau lleol, a chaniatáu i gwsmeriaid brynu tocynnau i sioeau ym Mhrifysgol Glyndŵr, Clwyd Theatr Cymru, Pafiliwn y Rhyl ac achlysuron rhanbarthol mawr fel sioeau blodau Amwythig a Southport, mae'r Ganolfan Groeso'n gwerthu amrywiaeth eang o felysion ac anrhegion Cymreig.

Ac, os ydych yn meddwl am gymryd egwyl fer yn rhannau eraill y DU, gall y tîm roi pob math o bamffledi a gwybodaeth i chi – y rhan fwyaf ohonynt am ddim. Ac, os nad yw ganddynt, byddant yn ceisio ei gael i chi.

Gallant hefyd archebu llety i chi yn unrhyw ran o'r DU.

Mae Claire Jones y Rheolwr wedi bod yn rhan o'r ganolfan ers y diwrnod cyntaf yr agorodd yn Stryt y Lampint yn 1992.

Meddai: "Rydym yn eithaf anghyffredin trwy fod hanner ein cwsmeriaid yn lleol, er nad yw llawer o bobl mae'n debyg yn meddwl am ddod i mewn yma oherwydd eu bod yn cymryd yn ganiataol ei fod ar gyfer ymwelwyr.

'Mae trigolion sy'n gwybod amdanom yn dod yn ôl dro ar ôl tro, ac mae'n wych meddwl ein bod yn rhoi gwasanaeth defnyddiol i bobl leol yn ogystal ag ymwelwyr â'r fwrdeistref sirol.'

CINIO CYMRAEG

Mae'r rhifyn Cyswllt hwn eisoes wedi tynnu sylw at glybiau cinio yn Wrecsam, ond wyddech chi fod Clwb Cinio ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg?

Pob hanner tymor, bydd Ysgol Morgan Llwyd yn cynnal clwb cinio yn yr ysgol i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg o bob oed. Agorodd y clwb ym mis Rhagfyr 2009 gyda chyllid dechrau menter gan yr Adran Gofal Cymdeithasol Oedolion.

Myfyrwyr chweched dosbarth a staff sy'n trefnu a chefnogi'r clwb fel rhan o gwricwlwm Bagloriaeth Cymru, ac mae'n darparu pryd poeth, sgwrs Gymraeg, ac adloniant. Mae'n cefnogi nodau strategol y Cyngor i roi cyfle i bobl hŷn gymryd rhan mewn gweithgaredd cymunedol pleserus sydd hefyd yn dod â'r cenedlaethau at ei gilydd.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael oddi wrth Jane Owen yn Ysgol Morgan Llwyd.

Newydd Ddod i Law!

14-20 Mehefin 2010 yw Wythnos y Gofalwyr.

Os ydych yn gofalu am rywun sy'n sâl, eiddil neu anabl heb gael cyflog am hynny, cofiwch sicrhau eich bod yn mynd i un o'r digwyddiadau yn Wythnos y Gofalwyr eleni.

Hwn fydd eich cyfle i gael gwybod am y cyfleoedd sydd ar gael i chi gan y rhai sy'n gweithio yn y diwydiant gofalu – gofalwyr eraill, y Gwasanaethau Cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gwasanaeth Gofalwyr Wrecsam ar 01978 318812.

Cynnig Diwrnod Rasio Wrecsam

Unwaith eto, mae Cyngor Wrecsam wedi ymuno â Chae Rasys Bangor Is-coed i roi cyfle i drigolion Wrecsam brynu un tocyn i Ddiwrnod Rasio Wrecsam ar 15 Mai chael un arall am ddim. Byddwch hefyd yn cael cyfle i ennill cinio siampên i ddau, gwerth £140!

I sicrhau eich bod yn gallu manteisio ar y cynnig hwn i brynu un a chael un am ddim llenwch y ffurflen a'i hanfon i'r cyfeiriad isod.

Bydd raffl o'r holl ffurflenni a dderbyniwn i ennill cinio siampên i ddau ym Mwyty Wynnstay ar Ddiwrnod Rasys Wrecsam ynghyd â thocynnau i'r Cae Padog a Rhaglenni Rasys. Bydd enillwyr yn cael eu dewis ar hap.*

Mae lluniaeth ar gael yng nghaeau'r Padog a'r Cwrs, ond DIM OND i gae'r Cwrs y cewch ddod â phicnic.

*I fod yn gymwys i fanteisio ar y cynnig prynu un a chael un am ddim rhaid i chi archebu'r tocynnau ymlaen llaw ar y ffurflen isod. Mae'r cynnig yn gyfyngedig i uchafswm o bedwar tocyn i bob aelwyd ac maent ar gael i drigolion Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn unig.

Teitl: Mr/Mrs/Miss/arall (dilëwch fel y bo'n briodol)

Enw:

Ffôn:

Cyfeiriad ebost:

Cyfeiriad:

Cod Post:

Anfonwch _____ o docynnau padog (prynu un am £17 a chael un am ddim)

Amgaeaf siec yn daladwy i Bangor-on-Dee Races am £ _____

Anfonwch y ffurflen hon gyda'r taliad i Rasys Bangor Is-coed, Y Cae Ras, Bangor Is-coed, Wrecsam LL13 0DA. I gyrraedd erbyn dydd Gwener 7 Mai.

GŴYL GELFYDDYDAU WRECSAM

1 MAI – 5 MEHEFIN 2010 / WRECSAM AC EWROP

Eleni mae Wrecsam yn dathlu 40 mlynedd o efeillio ar ôl gefeillio gyntaf gyda Märkischer Kreis yn yr Almaen yn ôl yn 1970. Felly, bydd gŵyl 2010 yn canolbwyntio ar gysylltiadau Wrecsam ag Ewrop gyda dewis mawr o weithgareddau ar gyfer pob oed a chwaeth. Pa un ai ydych yn mwynhau celf a chrefft, cerddorfeydd neu ddawnsio hip hop, fe welwch rywbeth i'w fwynhau – felly cofiwch sicrhau eich bod yn rhan ohono!

ACHLYSURON CERDDOROL

7 Mai
Neuadd William Aston, Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam
7.30pm
Cyngerdd Agoriadol – 'Wrecsam ac Ewrop'
Gwasanaeth Cerddoriaeth Sirol Wrecsam yn cyflwyno ensembles Cerdd Wrecsam – cerddorion Iau, Canolradd a Hŷn – gyda cherddoriaeth Ewropeaidd i Linynnau, Côr, Pres ac Offerynnau Chwyth. Tocynnau £5.00 (Consesiynau £3.00) wrth y drws

8 Mai
Neuadd William Aston, Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam
7.30pm
Cerddorfa Symffoni Wrecsam gyda Chantorion Sirenian
Dan arweiniad Laurence Perkins
Beethoven – Symffoni Rhif 9
Unawdwyr – Cecilia Smiga (soprano), Rebecca Afonwy-Jones (alto), John Pierce (tenor) ac Oliver Sammons (bas)
Arweinydd – Mark Lansom
Côr – Cantorion Sirenian – arweinydd Jean Stanley-Jones
Bydd Cantorion Sirenian yn perfformio detholiad o ddarnau yn yr hanner cyntaf. Tocynnau: £8.00 (Consesiynau £6.00) o'r Ganolfan Groeso 01978 292015. Mae tocyn plentyn i'w gael am ddim gyda phob oedolyn sy'n talu pris llawn. Bydd y balconi ar agor ond gyda golygfa gyfyngedig.

8 Mai
Neuadd Goffa, Wrecsam
6.00pm
Cyngerdd gyda Monika Thomas
Cantores, cyfansoddwraig caneuon a phianydd Bwylaidd boblogaidd gyda detholiad o ganeuon yn y Bwyleg a'r Saesneg gan gynnwys rhai o'i CD ddiweddaraf. Tocynnau £5 o'r Ganolfan Groeso 01978 292015 neu o siopau Pwylaidd yn y dref.

12 Mai
Ysgol Maelor, Llannerch Banna
7.30pm
Trio Classico – Cerddoriaeth o Sbaen
Gyda Nancy Klass (soprano), Neil Smith (gitâr), Lydia Bryan (piano). Noswaith ysgafngalon o ganeuon a darnau offerynnol gan gyfansoddwyr o Sbaen, yn cynnwys Rodrigo, Albeniz, Granados a de Falla. Tocynnau £10.00 (Consesiynau ac aelodau Cymdeithas Gerddorol Maelor £8.00) o'r Ganolfan Groeso 01978 292015

13 Mai
Yr Orsaf Ganolog, Wrecsam
7.30pm
Faust a gwesteion arbennig
Clwb Don't Die Just Yet! Wrecsam yn croesawu, Faust y band roc chwedlonol o'r Almaen, i'w lwyfan. Dyfeiswyr 'Kraut rock', mae Faust yn ffigurau allweddol yng ngherddoriaeth yr 20fed ganrif ac, ar y cyd â 'Can' a 'Kraftwerk' hwy ailddyfeisiodd gerddoriaeth pop fel celfyddyd benodol Ewropeaidd.
Tocynnau: £10.00 ymlaen llaw o swyddfa docynnau Caffi Bar Coleg Iâl neu www.seetickets.com neu www.ticketline.co.uk

15 Mai
Eglwys Sant Chad, Holt
7.00pm
Dathlu Canmlwyddiant yr Organ – Cyngerdd o Gerddoriaeth Ewropeaidd Gyda'r organydd Martin Herchenroeder o'r Almaen fel gwestai arbennig, ynghyd â Chantorion y Rhos, Hannah Williams, soprano, a Chlochyddion Sant Chad. Tocynnau £5.00 o'r Ganolfan Groeso 01978 292015

17 Mai
Eglwys Blwyf San Silyn
12.30pm
Datganiad ar yr organ – Martin Herchenroeder o Märkischer Kreis, gefeilldref Wrecsam yn yr Almaen. Ciniawau ar gael o 12 hanner dydd ymlaen. Mynediad am ddim

18 Mai
Y Lleng Brydeinig Frenhinol, Llai
8.30pm
Cyngerdd Jazz Rhyngwladol
Gyda thrympedwr gwobrwyol Enrico Tomasso o'r Eidal a Trefor Owen (gitâr), Liam Byrne o Wrecsam (tenor sacs), Andrzej Baranek o Wlad Pwyl (allweddellau), Zoltan Dekany o Hwngari (bas dwbl), a Marek Dorcik o Slofacia (drymiau). Bu Enrico Tomasso, enillydd Categori Trymped Gorau, Gwobrau Jazz Prydeinig, yn perfformio am 12 mlynedd gyda'r Pasadena Roof Orchestra, yna gyda Ray Gelato's Giants. Erbyn hyn mae Enrico'n gweithio gydag artistiaid mor amrywiol â Bryan Ferry, Claire Teal ac Acker Bilk. Trefnwyd ar y cyd â Chymdeithas Jazz Gogledd Cymru
Tocynnau: £8.00 (Consesiynau ac aelodau NWJS £7.00) o'r Ganolfan Groeso 01978 292015

www.wrexham.gov.uk

5 Mehefin
Eglwys Blwyf San Silyn, Wrecsam
7.30pm
Cerddorfa Ffilharmonig Cambrian dan arweiniad Robert Guy. Unawdwyr Nina Reddig ac Annette Walther o'r Almaen
Rhaglen
Chabrier: Fête Polonnaise
Bach: Concerto i Ddwy Ffidil yn D leiaf
Beethoven: Symffoni Rhif 5
Tocynnau £8.00 (Consesiynau £6.00, Plant dan 16 £3.00) ar gael o'r Ganolfan Groeso 01978 292015 (Peidiwch â methu'r perfformiad cyn y cyngerdd gan Gôr Coleg Iâl, yn dechrau am 7.00pm)

DIGWYDDIADAU LLENYDDOL

5 Mai
Llyfrgell Wrecsam
7.00pm
Discovering Europe on a Motorbike
Yn ei llyfr, Just Us Two, mae'r awdur Rosalie Marsh yn disgrifio'i theithiau hi a'i gŵr ar draws Ewrop ar fotorbeic Gold Wing. Roedd o eisiau beic bach i ffidlan efo fo, roedd ganddi hi wallt trwsiadus, roedd hi'n gwisgo sodlau uchel, ond roedd ganddi hi freuddwyd i'w gwireddu. Mae Rosie a Ned yn crwydro Ewrop, gan reidio ar draws mynyddoedd uchel ac i lawr i'r dyffrynnoedd, ar draws y Sierras llwm a diffaith, yn wynebu stormydd enbyd ym mynyddoedd Andorra ac yn berwi yng ngwres Yr Eidal. Roedd Just Us Two ar restr derfynol Gwobr Llyfr Taith Gorau yn USA Book News yn 2009. Dyma stori wir ar gyfer teithwyr a breuddwydwyr, stori ysbrydoledig am ddarganfod, antur a hwyl. Tocynnau: £4.00 (Consesiynau £3) ar gael o Oriel Wrecsam (01978 292093)

12 Mai
Llyfrgell Wrecsam
7.00pm
Ewrop a'r Tu Hwnt
Gellid ystyried Bethan Gwanas fel fersiwn Cymru o Michael Palin! Ar ôl teithio ar draws ac ar hyd, dyma gyfle i'w chlywed yn adrodd rhai o'i phrofiadau teithio ar draws Ewrop a'r tu hwnt. Mae ei chwe llyfr taith yn cofnodi ei phrofiadau personol, yn amrywio o waith gwirfoddol yn Nigeria i'w hymweliadau â rhai o wledydd 'llai' Ewrop – Gwlad y Basg, Llydaw, Norwy – yn ei dull dihafal ei hun. Mae'n gyflwynydd dawnus ac ysbrydoledig ac mae ei hiwmor a'i straeon am ei hanturiaethau yn cael eu cyflwyno ar ei thraul ei hun yn aml iawn! Tocynnau: £4.00 (Consesiynau £3) ar gael o Oriel Wrecsam (01978 292093)

DIGWYDDIADAU DAWNSIO

25 Mai
Theatr Stiwdio Coleg Iâl, Ffordd Parc y Llwyni, Wrecsam, LL12 7AA, 7.30pm
Company Decalage - 'Dwy Sioe mewn Un o Gerddoriaeth a Dawns'
Cyflwynir gan NEW Dance ar y cyd ag Adran Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r sioe unigryw hon yn cynnwys Company Decalage, un o gwmnïau dawns mwyaf cyffrous ac addawol Ewrop gyda'u cyfuniad o hip hop, dawns gyfoes a byrfyfyr, ynghyd â pherfformiadau o gerddoriaeth fyw gan Jason Kalidas a Miguel Marin. Mae'n cynnwys hefyd cyflwyniad o ffilm a seiat holi ac ateb gyda'r Ffrancwr Mickael Marso Rivere, Cyfarwyddwr Celfyddydol a Dawnslunydd y Cwmni .Tocynnau: £5.00, (Gostyngiadau £4.00) gan y Ganolfan Groeso 01978 292015.

DIGWYDDIADAU'R CELFYDDADAU GWELEDOL

26 Mai
Neuadd Eglwys y Santes Fair, Y Waun
7.00pm
Mae Ysgol Gynradd Eglwysig Pentre yn cyflwyno "Wonderful Europe" – arddangosfa o atgofion am Ewrop. Lluniaeth ysgafn ar werth. Mynediad am ddim.

24 Ebrill - 23 Mehefin
Oriel Wrecsam, 7.00-9.00pm
Cynweliad 23 Ebrill
Universal Unique
Fel rhan o thema Ewropeaidd Gŵyl Gelfyddyd Wrecsam, mae Universal Unique yn edrych ar ein perthynas â'n cymheiriaid Ewropeaidd trwy gyfrwng portread. Gan gynnwys delweddau trawiadol pen ac ysgwydd Antek Schultz, Artist yn wreiddiol o Wlad Pwyl ond yn byw yn yr Almaen, a baentiwyd gydag amrediad eang o liwiau llachar.

3 Mai a 7 Mehefin
Oriel Wrecsam, 5.00-7.00pm
Euro Jack
Dwy noswaith o weithdai blasu ar gyfer oedolion a ysbrydolwyd gan yr arddangosfa, yn archwilio materion o gwmpas portread a thir cyffredin ar draws gwahanol ddiwylliannau Ewropeaidd. Codwch Raglen Ddysgu Oriel Wrecsam neu ffoniwch 01978 209093 i gael rhagor o wybodaeth.

DIGWYDDIADAU AR GYFER PLANT

31 Mai a 2 Mehefin
Oriel Wrecsam
Gwneud Carnifal gyda Mini Gorymdaith
Ar gyfer pawb! Gweithdy ymarferol dylunio a gwneud, llawn hwyl, i blant, pobl ifanc ac oedolion gydweithio. Gwneud gwisgoedd cysylltiedig â thema Ewrop eleni. Bydd yr orymdaith yn ffordd hwyliog o arddangos eich dawn greadigol trwy ganol y dref a bydd yn cychwyn o Oriel Wrecsam. Mae lleoedd yn brin felly cadwch le yn gynnar rhag cael eich siomi! 31 Mai 10am-12pm neu 12.30- 2.30pm 2 Mehefin 10am-12pm neu 12.30-2.30pm £3.50 y sesiwn. Gorymdaith y Carnifal 2 Mehefin 2.30pm AM DDIM i bawb fu yn y gweithdai Carnifal

MANNAU SANCTAIDD

Arddangosfa o ffotograffau'n tynnu sylw at amrywiaeth y bywyd gwyllt a hanes sydd i'w ddarganfod mewn tair ar ddeg o fynwentydd eglwys cefn gwlad Wrecsam. Mae'r arddangosfa am ddim ac i'w gweld tra bydd yr eglwysi ar agor o 10.00am i 4.00pm bob dydd (heblaw yn ystod gwasanaethau) yn y mannau isod:
1af i 11eg Mai: Santes Fair, Y Waun
12fed i 21ain Mai: Holl Saint, Gresffordd / 22ain i 23ain Mai: Sant Pawl, Is-y-coed / 25ain Mai i 4ydd Mehefin: Sant Chad, Hanmer.
Gogledd Gororau Cymru sy'n gyfrifol am y prosiect Mannau Sanctaidd sy'n un o lawer o'i brosiectau Ewropeaidd. Cafodd y prosiect nawdd trwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013, a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. I gael rhagor o wybodaeth: Ffoniwch 01978 298386 neu e-bostiwch sacred-space@hotmail.co.uk